Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 1 Mai 2013**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

## Agenda

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**2. Polisi Dŵr yng Nghymru - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (09.30 - 10.15)** (Tudalennau 1 - 19)
E&S(4)-13-13 papur 1

Alun Davies AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Prys Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr: Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd
Olwen Minney, Pennaeth Y Gangen Dŵr

**3. Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Effaith yr eira ddiweddar ar amaethyddiaeth (10.15 - 10.45)** (Tudalennau 20 - 30)

Alun Davies AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol
Andrew Slade, Cyfarwyddwr Polisi'r UE a Chyllido

**4. Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Sesiwn graffu gyffredinol (10.45 - 11.30)** (Tudalennau 31 - 43)

Alun Davies AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Dyfodol Cynaliadwy
Andrew Slade, Cyfarwyddwr Polisi'r UE a Chyllido

**5. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 44 - 45)
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill

**Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Camau sy'n codi o'r cyfarfod ar 21 Chwefror** (Tudalennau 46 - 54)
E&S(4)-13-13 papur 2

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

E&S(4)-13-13 papur 1

## Ymchwiliad i bolisi dŵr yng Nghymru – Tystiolaeth gan Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

### Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru, oddi mewn i gyfres gymhleth o gyfrifoldebau rheoleiddiol a gweithredol. Ein hegwyddorion craidd ni yw sicrhau mynediad at ddŵr yfed diogel, cynnal gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth am bris fforddiadwy a chydymffurfio â rhwymedigaethau statudol sy'n sicrhau ansawdd dŵr yn gyffredinol.

2. Roedd y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2011, yn datgan y camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cymryd mewn perthynas â dŵr a'r mesurau y byddwn yn eu defnyddio i gofnodi cynnydd. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymrwymiadau ehangach mewn perthynas â dŵr sydd wedi'u datgan yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006, y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009, Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd Hydref 2010, Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr 2009 / 2011 a Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog blaenorol ar Ddŵr – Rhagfyr 2011.

3. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn datgan ystod o ymrwymiadau i sicrhau bod biliau dŵr yn cael eu cadw ar lefel fforddiadwy ac i gwsmeriaid gael dewis o opsiynau prisiau a fydd yn lleihau dyledion ac yn amddiffyn grwpiau agored i niwed.

### Fforddiadwyedd Dŵr

4. Ym mis Rhagfyr 2009, comisiynodd Defra a Llywodraeth Cymru Adolygiad ar y cyd o Ddefnyddio Mesuryddion a Phrisiau Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth, a arweiniwyd gan Anna Walker, Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Iechyd bryd hynny.

5. Archwiliodd Adolygiad Walker y system bresennol o brisiau gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i deuluoedd a rhoddodd sylw i fforddiadwyedd dŵr yn ogystal â chynigion ar gyfer annog mwy o effeithlonrwydd dŵr ac opsiynau posibl yn y dyfodol ar gyfer defnyddio mesuryddion dŵr.

6. Un o'n prif flaenoriaethau ni yw lleihau tlodi yng Nghymru ac un o'r prif feysydd sy'n peri pryder i ni yw effaith prisiau dŵr ac effaith y cynnydd mewn biliau dŵr ar y cwsmeriaid hynny sy'n llai abl i dalu.

7. Mae fforddiadwyedd dŵr yn rhan o broblem ehangach o dlodi cyffredinol, wrth i deuluoedd ei chael yn anodd fforddio hanfodion bywyd. Mae hyn yn hynod bwysig o'i ystyried ochr yn ochr â'r cynnydd mewn biliau cyfleustodau eraill a biliau eraill y cartref.

8. Mae ein cynigion polisi cyfredol a newydd yn adeiladu ar y Datganiad Ysgrifenedig ar Bolisi Dŵr yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Weinidog blaenorol yr Amgylchedd a Datblygiad Cynaliadwy ar 12 Rhagfyr 2011. Roedd hwn yn tynnu sylw at fforddiadwyedd fel blaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac yn datgan y bwriad i ddatblygu ymhellach agweddau ar Adolygiad Walker ar gyfer cynigion yn nrafft y Strategaeth Dŵr ar gyfer Cymru, yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn nes ymlaen eleni.

9. Yn ystod y chwe mis diwethaf, rydym wedi bod yn dadansoddi gwaith ymchwil ac yn cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid ledled y sector dŵr yng Nghymru er mwyn datblygu ein polisi fforddiadwyedd. Rydym wedi datgan y canlyniadau canlynol ar gyfer y strategaeth:

   - Cadw biliau dŵr ar lefel fforddiadwy.
   - Cwsmeriaid yn cael dewis o opsiynau fel prisiau, i leihau dyledion, sbarduno effeithlonrwydd a sicrhau manteision i bawb gan amddiffyn grwpiau agored i niwed ar yr un pryd.
   - Prisiau dŵr a charthffosiaeth teg a chyfartal i bob cwsmer.
   - Cwsmeriaid yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw gynnydd mawr diangen mewn biliau.

10. Mae teulu'n cael ei ystyried fel teulu sy'n dioddef o dlodi dŵr os yw'n talu mwy na 3% o'i incwm am ddŵr ac os yw teulu'n talu mwy na 5% o'i incwm am ddŵr, mae'n cael ei ystyried fel teulu sy'n dioddef o dlodi dŵr difrifol. Yn ôl yr wybodaeth ddiweddaraf gan Ofwat, mae 30% o deuluoedd yng Nghymru'n gwario mwy na 3% o'u hincwm gwario ar eu biliau dŵr a charthffosiaeth, gyda 14% o deuluoedd yn gwario mwy na 5%.

11. I gadw biliau dŵr ar lefel fforddiadwy a lleihau tlodi dŵr, rydym wedi bod yn datblygu nifer o gynigion penodol yn seiliedig ar argymhellion Adolygiad Walker, a fydd yn sicrhau bod gennym ni system brisiau deg a chynaliadwy yn ei lle. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn helpu i wella fforddiadwyedd dŵr yng Nghymru yn ystod y cyfnod gweinyddu hwn.

<u>Canllaw Tariffau Cymdeithasol</u>

12. Cyhoeddwyd ein Canllaw Tariffau Cymdeithasol ar 1 Mawrth 2013. Nod y Canllaw hwn yw gostwng prisiau i ddefnyddwyr dŵr yng Nghymru sy'n cael anhawster talu eu biliau. Fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, mae'n ofynnol i swyddogion Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl yn rheolaidd ar y canlynol:

   - nifer y tariffau cymdeithasol gan ymgymerwyr dŵr a ddatblygwyd yn unol â'r canllaw

- nifer y tariffau cymdeithasol a gymeradwywyd gan Ofwat
- nifer y teuluoedd sy'n elwa o dariffau cymdeithasol
- lefel dyledion cwmnïau dŵr wedi'u gostwng.
- cwsmeriaid yn derbyn tariffau cymdeithasol a gynigir
- a gostyngiad yn lefel y bobl sy'n profi fforddiadwyedd dŵr yng Nghymru

13. Bydd y swyddogion yn adolygu'r Canllaw hwn yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ei fod yn addas i bwrpas, gan gynnal adolygiad ffurfiol o dariffau cymdeithasol yng Nghymru wedi i gyfnod Cynllun Rheoli Asedau 6 (AMP6) yr ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddod i ben yn 2020. Bydd hyn yn rhoi amser priodol i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth fesur llwyddiant eu tariffau.

<u>Rheoliadau Drwgddyledion</u>

14. 'Drwgddyled' yw bil heb ei dalu sy'n cael ei ddileu gan gwmni dŵr yn y diwedd fel colled, naill ai am nad oes modd casglu'r ddyled, mae pob ymdrech resymol i'w chasglu wedi'i gwneud, neu mae'r gost o weithredu ymhellach mewn ymgais i gasglu'r ddyled yn costio mwy na'r ddyled ei hun.

15. Ar hyn o bryd mae drwgddyledion yn ychwanegu cyfartaledd o £20 at fil pob cwsmer dŵr. Yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r drwgddyledion hyn er mwyn helpu i ostwng biliau. Ar hyn o bryd, mae preswylydd eiddo'n atebol am dalu biliau dŵr, ond nid yw rhai pobl yn talu eu biliau ac mae llawer o ddyledwyr dŵr yn denantiaid.

16. Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r broblem hon, mae Adran 45 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn datgan bod landlordiaid yn atebol am brisiau dŵr os nad ydynt yn rhoi manylion eu tenantiaid i gwmnïau dŵr. Nid yw'r rhan hon o'r Ddeddf mewn grym eto ac er mwyn iddi ddod i rym mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Rheoliadau.

17. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu ymgynghoriad ar Reoliadau 'Drwgddyledion' ac rydym yn bwriadu ei gyhoeddi ar gyfer cynnal ymgynghoriad yn nes ymlaen eleni. Bydd y Rheoliadau'n datgan ei bod yn ofynnol i landlordiaid roi manylion eu tenantiaid i'w cwmni dŵr neu wynebu bod yn atebol am unrhyw filiau dŵr sydd heb eu talu yn yr eiddo maent yn berchen arno.

18. Mae hwn yn ymgynghoriad pwysig a bydd yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â drwgddyledion yn y diwydiant dŵr yn y ffordd fwyaf priodol i Gymru.

<u>Mesuryddion</u>

19. Rhwng mis Mawrth 2011 a mis Gorffennaf 2011 buom yn ymgynghori ar argymhellion Adolygiad Walker o Brisiau Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth, a oedd hefyd yn cynnwys rôl bosibl mesuryddion dŵr mewn strwythurau prisio yn y dyfodol.

20. Roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar oblygiadau rhaglen o ddefnyddio mesuryddion ar gyfer Cymru. Hefyd, roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar nifer o ddulliau gweithredu mewn perthynas â mesuryddion ac amrywiaeth o sefyllfaoedd am lefel y defnydd o fesuryddion a'r effeithiau cyffredinol ar gwsmeriaid a'u biliau.

21. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'n hegwyddorion sylfaenol i helpu gyda phenderfyniadau am y polisi a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer mesuryddion yn y dyfodol. Roedd y rhain yn rhoi datrysiadau cynaliadwy hirdymor yn eu lle, gan hybu newid mewn ymddygiad ac amddiffyn teuluoedd agored i niwed ac incwm isel.

22. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dynodi bod pobl yn gefnogol yn gyffredinol i fesuryddion, gan eu bod yn hybu tegwch ac yn gallu annog defnydd effeithlon o ddŵr.

23. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu asesiad o effaith a fydd yn edrych ar opsiynau posibl ar gyfer cyflwyno rhaglen mesuryddion gymesur, fesul camau, ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn sail i gynigion a gyflwynir yn ein Strategaeth ddrafft.

**Bil Dŵr y DU**

24. Mae'r Bil Dŵr drafft yn cynnwys ymrwymiadau i'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i datgan ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ddŵr, *Water for Life*, ac mae'n bodloni llawer o argymhellion Adolygiad annibynnol Martin Cave o Gystadleuaeth ac Arloesedd mewn Marchnadoedd Dŵr.

25. Mae mwyafrif y Bil Dŵr drafft yn canolbwyntio ar gynigion diwygio'r farchnad Llywodraeth y DU i ddadfwndelu trwyddedau cyflenwad dŵr a charthffosiaeth er mwyn hwyluso a hyrwyddo marchnad gystadleuol yn Lloegr. Bydd hyn yn galluogi i fusnesau a chyrff y sector cyhoeddus yn Lloegr gael dewis o ddarparwr gwasanaeth adwerthu.

<u>Diwygio'r farchnad</u>

26. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cwsmeriaid wrth galon cyflwyno gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru ac mae hyn yn adlewyrchu dull Llywodraeth Cymru o weithredu o ran cyflenwi gan ganolbwyntio ar ddinasyddion. Ein nod ni yw gweld gwasanaethau safonol, fforddiadwy, cadarn ac ymatebol ar gyfer cwsmeriaid domestig a busnes yng Nghymru.

27. Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Adolygiad Cave. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gynigion ar gyfer bwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad yn Lloegr. Ni ofynnodd Llywodraeth Cymru am safbwyntiau ar gynigion tebyg ar gyfer Cymru, ond defnyddiodd y ddogfen ymgynghori i roi cyfle i dderbyn

sylwadau ar briodolrwydd yr argymhellion mewn perthynas â'r diwydiant dŵr yng Nghymru.

28. Mae swyddogion wedi adolygu nifer o adroddiadau ac wedi cyfarfod Ofwat a Defra ar sawl achlysur i drafod sut gallai adwerthu a chystadleuaeth ar lefel uwch yn y diwydiant dŵr fod o fudd i Gymru. Er hynny, hyd yma, nid ydym wedi derbyn unrhyw enghreifftiau clir na thystiolaeth i ddangos y manteision o fwrw ymlaen â'r polisïau hyn yng Nghymru ar hyn o bryd.

29. Mae swyddogion yn comisiynu astudiaeth ar hyn o bryd i edrych ar fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol presennol y diwydiant dŵr yng Nghymru (llinell sylfaen). Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i weld a yw'r drefn reoleiddiol gyfredol yng Nghymru yn addas i bwrpas. Byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau i'w profi yn erbyn y llinell sylfaen i sicrhau bod cwsmeriaid yng Nghymru'n cael y gwasanaeth gorau ac rydym yn parhau i annog ein cwmnïau dŵr i groesawu gofynion effeithlonrwydd. Byddai'n ofynnol i'r opsiynau hyn gynnwys gwell rheoliadau a chymhelliant a datrysiadau marchnad.

30. Byddwn hefyd yn manteisio ar gyfle i asesu pa ofynion a disgwyliadau gwasanaeth sydd gan gwsmeriaid busnes mewn perthynas â'r diwydiant dŵr yng Nghymru.

31. Bydd ymgynghoriad ein Strategaeth Ddŵr yn cael ei ddefnyddio i edrych ar opsiynau amrywiol a fydd yn canolbwyntio ar ofynion cwsmeriaid busnes yn ardaloedd cyflenwad dŵr a charthffosiaeth Cymru, a mecanweithiau rheoleiddio effeithlon i wella arloesedd a gwelliannau yn y diwydiant. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu fel sail i ddull Llywodraeth Cymru o weithredu o ran darparu gwasanaethau dŵr fforddiadwy, cadarn ac ymatebol i gwsmeriaid domestig a busnes.

**Strategaeth Ddŵr ar gyfer Cymru**

32. Roedd y Rhaglen Lywodraethu'n datgan datblygu Strategaeth Ddŵr fel cam gweithredu allweddol ar gyfer y cyfnod gweinyddu presennol.

33. Bydd y Strategaeth yn datgan cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru yn y dyfodol a bydd yn ystyried sut y gallwn ni, fel Llywodraeth, gefnogi anghenion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru. Yn benodol, bydd y Strategaeth yn ceisio edrych ar ddŵr yn yr ystyr ehangaf bosibl – beth yw ein perthynas â dŵr a beth sydd raid i ni ei wneud er mwyn sicrhau'r budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gorau posibl o'r adnodd hwn.

34. Bydd y Strategaeth yn cael ei gosod yng nghyd-destun polisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Rhaglen Cymru Fyw, yr Agenda Trechu Tlodi a Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'n cynnig cyfle i ni enghreifftio ein dull o weithredu mewn perthynas â rheoli cyfoeth naturiol.

35. Yn benodol, bydd y Strategaeth yn ceisio ymateb i argymhellion perthnasol y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadau bwrw ymlaen â hwy mewn perthynas â nifer o adolygiadau:

- *'Adolygiad Annibynnol o Gystadleuaeth ac Arloesedd mewn Marchnadoedd Dŵr (Ebrill 2009)'* gan Martin Cave
- *'Adolygiad Annibynnol o Brisiau Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth i Deuluoedd (Rhagfyr 2009)'* gan Anna Walker
- *'Adolygiad o Ofwat a Chynrychiolaeth Defnyddwyr yn y Sector Dŵr (Awst 2011)'* gan David Gray

36. Yn ystod y 6 mis diwethaf, rydym wedi bod yn cynnal llawer iawn o weithgarwch ymgysylltu â Rhanddeiliaid er mwyn profi ein ffordd o feddwl ac fel sail iddi. Gwnaed hyn drwy gyfarfodydd unigol â chwmnïau a rheoleiddwyr dŵr a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn trafod eu blaenoriaethau a'u dyheadau ar gyfer eu cynnwys yn y strategaeth. Ar 7 Tachwedd 2012, cynhaliwyd gweithdy penodol gennym gydag aelodau o Fforwm y Diwydiant Dŵr ar gyfer Cymru, er mwyn deall yr amcanion strategol ar gyfer y strategaeth ddŵr.

37. Cynhaliwyd cyfres o weithdai polisi drwy gydol mis Chwefror 2013 gyda dau ychwanegol wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai 2013. Pwrpas y gweithdai hyn yw canfod safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol a chael gwybodaeth ganddynt fel sail i ddatblygu'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddŵr. Roedd pob gweithdy'n rhoi sylw i bwnc allweddol y bydd yr ymgynghoriad yn rhoi sylw iddo. Dyma'r pynciau:

- Cyflenwi dŵr yfed o safon uchel yng Nghymru;
- Rheoli gwasanaethau carthffosiaeth a draenio yn y dyfodol yng Nghymru;
- Adnoddau dŵr yng Nghymru;
- Cyflawni canlyniadau i gwsmeriaid – dyfodol y diwydiant dŵr;
- Cyflawni canlyniadau i gwsmeriaid sy'n deuluoedd – mynd i'r afael â thlodi dŵr a materion fforddiadwyedd;
- Gwerth dŵr;
- Rheoli adnoddau dŵr yng Nghymru – dull o weithredu ar ffurf ecosystemau.

38. Rydym yn dadansoddi'r ymatebion i'r gweithdai sydd wedi'u cynnal hyd yma ar hyn o bryd.

**Alun Davies**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 17 Ebrill 2013** |
| Amser: | **09:30 - 11:55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_17_04_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Keith Davies**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**William Powell**<br>**David Rees**<br>**Antoinette Sandbach** |
| Tystion: | **Kevin Davies**<br>**Keith Mason, Ofwat** |
| Staff y Pwyllgor: | **Catherine Hunt (Clerc)**<br>**Mike Lewis (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James.

### 2. Polisi dŵr yng Nghymru - Tystiolaeth fideo a gasglwyd gan y tîm allgymorth
2.1 Gwyliodd y Pwyllgor y dystiolaeth fideo a gasglwyd gan y tîm allgymorth.

2.2 Atebodd Kevin Davies o'r tîm allgymorth gwestiynau'r Aelodau ar y fethodoleg ar gyfer casglu'r dystiolaeth.

http://www.youtube.com/watch?v=P9ovdj316us&list=UUfFbE37IX0a-XAKE9yw-CPQ&index=1

## 3. Polisi dŵr yng Nghymru - Tystiolaeth gan Ofwat

3.1 Atebodd Keith Mason gwestiynau'r Aelodau a chytunodd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7, 13 a 21 Mawrth.

## 5. Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Camau sy'n codi o'r cyfarfod ar 21 Chwefror

5.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 6. Nodiadau o gyfarfod gyda BAE Systems (Ymchwiliad polisi dŵr yng Nghymru)

6.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

## 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Eitem 8

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 8. Blaenraglen Waith

8.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith.

Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/AD/0555/13

Lord Dafydd Elis-Thomas AM
Chair of the Environment and Sustainability Committee
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

4 April 2013

Annwyl Dafydd,

**SCRUTINY SESSION ON 21 FEBRUARY 2013**

Thank you for your letter of 4 March following my appearance before your Committee session on 21 February.

I was disappointed to read your and the Committee's concerns about the information provided before and during the scrutiny session. My aim is always to disclose all the necessary facts openly and with the utmost transparency. I will set out below the information you have asked for, along with my assurance of my support for the work of the Committee in the future. I will address your concerns in turn.

**Financial information provided to the Committee**
I share the Committee's concerns, and assure you that my intention is to provide full and frank information to support the Committee's scrutiny role. There were discussions between my officials and the Clerk to the Committee in the run up to the February session about the level and detail of the information expected, and there appear to have been failures in communication on both sides. To avoid any possible repetition, I will expect an in depth meeting to take place between my officials and the Committee staff ahead of the next scrutiny session in the summer.

**Information on the European Union decision on Glastir spend**
The European Commission have now confirmed their position on spend in 2014 and 2015 for Glastir. All agreements in place by 31st December 2013 will be able to continue to be funded under the current Rural Development Plan (RDP) until 31st December 2015,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

providing that they are amended to fit with new rules governing the next RDP. Any agreements signed after 31st December 2013 are currently expected to be funded from the successor RDP.

Transitional arrangements are still to be agreed, as are the regulations governing the successor plan. As yet it is too early to be able to identify the impact of CAP Reform on the existing agreements.

My officials are working with Defra, other UK administrations and the European Commission in order to identify the level of spend that will be realised under the current RDP and the effect of new rules as a result of CAP Reform. A full evaluation of RDP allocations is being carried out to ensure that Wales can gain maximum benefit from European funding under the current plan.

**Marine Conservation Zones**

Defra's Marine Conservation Zone (MCZ) work remains at an early stage. The initial consultation concludes at the end of March. It is too early to determine whether or not Defra will actually seek to implement MCZs within the Welsh Zone or, if they do, the extent to which fishing would be affected within any MCZ. My officials have had preliminary discussions with Defra regarding the principle of enforcement and impacts of displacement fishing activity within the Welsh zone. Discussions will intensify when Defra's plans become clearer.

**Transitional European Union measures on direct payments and RDP under CAP**

The negotiations on the reform of the CAP are still in progress and it will not be possible to complete work on transitional arrangements until the new regulations are in a more complete state. Nevertheless, the Welsh Government has worked with other UK administrations and put forward our views of the elements that required to be addressed in the transition. In particular this includes clarity on the eligible dates for new commitments and payments under the RDP, funding arrangements for both Single Farm Payments and the RDP, and arrangements for modulation of funding between the EAGF and EAFRD funds.

**Impact on Programme for Government targets of access to Glastir Advanced for current Tir Gofal farmers**

Following the offer of transitional arrangements to Tir Gofal farmers in 2009, most agreement holders will exit that scheme at the same time. The Welsh Government is committed to targeting the new Glastir Advanced scheme on farms that offer the best potential for environmental delivery. Tir Gofal participants who have applied to enter Glastir will therefore compete on an equal platform to seek a Glastir Advanced contract. Of those existing Tir Gofal farms eligible for scoring under Glastir Advanced, nearly 800 were selected for inclusion in the Glastir Advanced scheme for 2014, and around 200 more placed on the reserve list. The remaining 2,000 Tir Gofal farms will continue to be considered for selection in Glastir Advanced for future years subject to them joining Glastir Entry and expressing an interest in the Advanced scheme. A further selection for Glastir

2015 will be made in the autumn and we envisage selecting a similar number, subject to provisions being available under new Rural Development Regulations.

The impact of the reduction of a high level agri-environment scheme on notified areas such as SSSI and SACs will be limited as the cross compliance requirements and the Whole Farm Code of Glastir Entry will provide protection of these habitats. Farmers not joining Glastir Advanced can maintain or enhance the environmental benefits made on their farms under Tir Gofal by choosing complementary options as part of their Glastir Entry application. The Glastir Advanced scoring system gives consideration to protected sites, contributing to the score and improving the chances of selection, thus prioritising these areas for selection into Glastir Advanced.

**Delivery of the Committee's Glastir report recommendations**

I am attaching, at Annexes A, B and C, a full response to each of the ten Recommendations along with details of the Glastir Drop-In Surgeries and On Farm events.

I trust that this information addresses the concerns raised by the Committee and I assure you that the information provided in advance of future sessions will be in a far greater depth.

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

A

**Recommendation 1**
A communication plan has been produced and the communications programme for Glastir is being rolled out as outlined under Recommendation 2 below.

**Recommendation 2**
Welsh Government is now producing a 4-page Glastir section in each edition of Gwlad. Articles covered to date include practical and technical advice, case studies and key dates.

Glastir Drop-in Surgeries began in February and Glastir On-farm events will commence at the end of April.

The monthly Farming Connect bulletin now contains a Glastir section providing the key messages.

Closer working partnership with the farming unions have resulted in our drop-in surgeries being promoted on the union's web pages.

**Recommendation 3**
I have asked my officials to assess the attendance levels during the Drop-in Surgeries and On-farm events and to evaluate the support given. As noted in my response to your enquiry, a further assessment of the options selected and the reasons for poor uptake of any individual options will be undertaken at the end of the year.

**Recommendation 4**
The details of the drop-in surgeries were published in the January/February edition of Gwlad. Details of the on-farm events have been published in the March/April edition of Gwlad. I attached the schedule for both the Drop-in surgeries (as Annex B) and the On-farm events (as Annex C) for your benefit.

**Recommendation 5**
I have already submitted to the committee the outcomes of the review in to recordkeeping.

**Recommendation 6**
The method for paying capital works is being explained to potential applicants at the Drop-in Surgeries and will form part of the On-farm events. An article is being drafted for the May/June edition of Gwlad. The May/June edition is considered the most suitable to publish as we expect the interest to increase as the July cut-off point becomes closer.

**Recommendation 7**
I have not made any arrangement to review the payment rates.

**Recommendation 8**
Further to my original response to the Committee, I am seeking further clarification on the new Rural Development Regulations and the effect of

'Greening' of direct payments before I consider any changes to the payment mechanism.

**Recommendation 9**
Following a series of stakeholder meetings and a SWOT analysis of the current forestry situation, both of which have informed the work of the RDP Advisory Group, chaired by Peter Davies, Forestry Commission Wales and, from April 2013, Natural Resources Wales, have been instructed to develop proposals for a forestry grant scheme to be supported under the next Rural Development Plan for Wales 2014 to 2020. A working group, comprising Welsh Government and FCW/NRW officials, as well as forestry sector stakeholders representing a cross-section of forestry interests, has been set up to take this work forward to ensure Wales has a comprehensive suite of woodland support schemes.

**Recommendation 10**
Once there is clarification on CAP pillar 1 regulations and payments and the new Rural Development Regulations, I will consult with stakeholders before making any changes to Glastir.

B

## Glastir On-farm Events 2013

| Date | Time | Event | Location |
|---|---|---|---|
| 30 April | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Gelli Aur College Farm, Llandeilo, Carmarthenshire, SA32 8NJ |
| 3 May | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Moelhebog Uchaf, Pontsian, Llandysul, SA44 4UB |
| 17 May | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Hendrephilip, Llwynygroes, Tregaron, SY25 6QB |
| 20 May | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Hendre Nantcyll, Pantglas, Garndolbenmaen, LL51 9DJ |
| 22 May | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Weobley Castle Farm, Gower, Swansea, SA31 1HB |
| 23 May | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Camrose Sports Club, The Follly, Folly Cross, Camrose, Pembrokeshire, SA62 6JG |
| 3 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Gelli, Cymmer, Neath Port Talbot, SA13 3NN |
| 5 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Bodrida, Brynsiencyn, Anglesey, LL61 6NZ |
| 10 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Clearwell Farm, Michaelstone-y-Fedw, Cardiff, CF3 6XT |
| 12 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Trewylan Ganol, Llansanffraid, Powys, SY22 6TJ |
| 14 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Cwmwhitton, Knighton, Powys, LD7 1NL |
| 17 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Tan Llan, Llanefydd, Dinbych, Conwy, LL16 5DY |
| 19 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Slade Farm Organics, Pitcot Farm, St Brides Major, Vale of Glamorgan, CF32 0TE |
| 24 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Dolobran, Dinas Mawddwy, Machynlleth, Gwynedd, SY209LX |
| 26 June | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Goitre, Kerry, Newtown, Powys, SA16 4NA |
| 3 July | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Rhosferrig, Builth Wells, Powys, LD2 3PT |
| 5 July | 13:00 – 17:00 | Glastir Open Day | Caerhys Organic Farm, St Davids, Pembrokeshire, SA62 6DX |

## Digwyddiadau Glastir Ar Ffermydd 2013

| Date | Time | Event | Location |
|---|---|---|---|
| 30 Ebril | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Fferm Coleg Gelli Aur, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, SA32 8NJ |
| 3 Mai | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Diwrnod Agored Glastir Moelhebog Uchaf, Pontsian, Llandysul, SA44 4UB |
| 17 Mai | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Hendrephilip, Llwynygroes, Tregaron, SY25 6QB |
| 20 Mai | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Hendre Nancyll, Pantglas, Garndolbenmaen, LL51 9DJ |
| 22 Mai | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Fferm Weobley Castle, Penrhyn Gwˆyr Abertawe SA31 1HB |
| 23 Mai | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Clwb Chwaraeon Camros, The Folly, Folly Cross, Camros, Sir Benfro, SA62 6JG |
| 3 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Gelli, Cymer, Castell-nedd Port Talbot, SA13 3NN |
| 5 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Bodrida, Brynsiencyn, Ynys Mon, LL61 6NZ |
| 10 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Fferm Clearwell, Michaelstone-y-Fedw, Caerdydd, CF3 6XT |
| 12 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Trewylan Ganol, Llansanffraid, SY22 6TJ |
| 14 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Cwmwhitton, Trefyclo, LD7 1NL |
| 17 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Tan Llan, Llanefydd, Dinbych, Conwy, LL16 5DY |
| 19 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Slade Farm Organics, Fferm Pitcot, Saint-y-brid, Bro Morgannwg, CF32 0TE |
| 24 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Dolobran, Dinas Mawddwy, Machynlleth, Gwynedd, SY209LX |
| 26 Mehefin | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Goetre, Ceri, Y Drenewydd, Powys, SA16 4NA |
| 3 Gorffennaf | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Rhosferrig, Llanfair ym Muallt, Powys, LD2 3PT |
| 5 Gorffennaf | 13:00 – 17:00 | Diwrnod Agored Glastir | Fferm Organig Caerhys, Tŷ Ddewi, Sir Benfro, SA62 6DX |

c

## Glastir Drop-in Surgeries 2013

| Date | Location | Time |
|---|---|---|
| 19/02/2013 | Neuadd Llanuwchllyn, Bala, LL23 7TT | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 21/02/2013 | Aberaeron Rugby Club, North Road, Aberaeron, SA46 0DY | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 26/02/2013 | Village Hall, Llanbadarn Fynydd, Llandrindod Wells, LD1 6YH | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 05/03/2013 | Letterston Memorial Hall, Station Rd, Letterston, SA62 5RY | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 06/03/2013 | Clwb Rygbi Dolgellau, LL40 1UU | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 12/03/2013 | Llandovery Rugby club, Church Bank, Llandovery, SA20 0DT | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 12/03/2013 | Huntsman Hotel, Shirenewton, Chepstow, Monmouthshire, NP16 6BU | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 14/03/2013 | Neuadd Bentref Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, SA33 6TR | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 19/03/2013 | The Barley Mow, Graig Penllyn, Cowbridge, CF71 7RT | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 26/03/2013 | Gwesty'r Bull, Bulkely Square, Llangefni, LL77 7LR | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 04/04/2013 | Coleg Gelli Aur, Golden Grove, SA32 8NJ | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 04/04/2013 | Bod Erw Hotel, Llanelwy, LL17 0LA | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 09/04/2013 | Gwesty'r Porth Hotel, Llandysul, Ceredigion, SA44 4QS | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 11/04/2013 | Haverfordwest Cricket Club, Dale Rd, Haverfordwest, SA61 1HZ | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 16/04/2013 | Neath Rugby Club, Neath, SA11 3BU | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 23/04/2013 | Greyhound Inn, Old Walls, Llanrhydian, Swansea, Gower SA3 1HA | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 25/04/2013 | Clwb Rygbi Nant Conwy, Part Carw, Trefriw, Llanrwst, LL26 0PW | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 01/05/2013 | Neuadd Glantwymyn, Glantwymyn, Machynlleth, SY20 8LX | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 02/05/2013 | Llanidloes Community Centre, Mount Lane, Llanidloes, Powys | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 21/05/2013 | Canolfan Hamden Glaslyn, Stryd y Llan, Porthmadog, LL49 9HW | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 21/05/2013 | Merthyr Cynog Village Hall, Upper Chapel, Brecon, LD3 9RG | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 23/05/2013 | Coleg Glynllifon, Ffordd Clynnog, Glynllifon, Caernarfon, LL54 5DU | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |

| | | |
|---|---|---|
| 29/05/2013 | Beaufort Park, Mold, CH7 6RQ | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 30/05/2013 | Public Hall, Back Street, Llanrhaeadr y Mochnant, SY10 9L | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 04/06/2013 | Nant Y FFin Motel , Clynderwen, SA66 7SU | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 06/06/2013 | Sennybridge Village Hall, Sennybridge, Brecon, LD3 5RR | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 11/06/2013 | Congl Meincia, Botwnnog, Pwllheli, LL53 8RA | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 13/06/2013 | Clwb Rygbi Rhuthin, Cae Ddol, Rhuthin, LL15 2AA | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 18/06/2013 | Holt Lodge, Holt, Wrexham, LL13 9SW | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 20/06/2013 | Neuadd Rhydypennau, Bowstreet, Ceredigion, SY24 5BQ | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 25/06/2013 | Village Hall, Talybont-on-Usk, Brecon, LD3 7YQ | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 27/06/2013 | Talbot Hotel, Tregaron, SY25 6JL | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 01/07/2013 | Marchnad y Trallwng, Buttington, Y Trallwng, SY21 8SR | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 02/07/2013 | Parish Room, Cerrigydrudion, Corwen, LL21 9SR | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |
| 04/07/2013 | Alice Springs Golf Club, Kemmeys Commander, Usk, NP15 1PP | Drop-in anytime 10:00 – 16:00 |